

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Laser Clinic North Wales

Dyddiad arolygu: 7 Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	11
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Laser Clinic North Wales ar 7 Ionawr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Laser Clinic North Wales yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Mae gan y clinig arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi'r rheolaeth a'r arweinyddiaeth gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon iawn ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y clinig yn cynnwys offer priodol ac roedd yn amlwg yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r peiriant laser/IPL, Craidd Gwybodaeth a Diogelu

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu a chynnal amserlenni glanhau ar gyfer yr adeilad

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Laser Clinic North Wales wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau Technoleg Laser a Thechnoleg Goleuni Pwls Dwys¹ Dosbarth 3B/4 yn The Laser, Beauty and Therapy Centre, Ffordd Telford, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5DR. Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf yn 2013.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddefnyddiwr awdurdodedig², ac un ohonynt yw'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion:

- a) System Lynton Lumina AQS i gleifion dros 18 oed yn unig:
- Gwaredu gwallt
 - Adfywio'r croen
 - Briwiau fasgwlaidd (gan gynnwys gwythiennau edau ac acne rhosynnaidd)
 - Briwiau pigmentog
 - Creithiau acne
 - Gwaredu tatŵau
 - Marciau ôl-beichiogi

¹ Technoleg ffynhonnell goleuni sbectwm eang yw IPL a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i gynnal triniaethau amrywiol ar y croen at ddibenion aesthetig a therapiwtig.

²Cyfeirir at aelodau o'r staff sy'n perfformio triniaethau neu'n gweithredu'r peiriant laser fel defnyddiwr awdurdodedig.

- Llinellau a rhychau dwfn
 - Ewinedd ffyngaid.
- b) System Lynton Lumina AQS i gleifion dros 16 oed:
- Gwaredu gwallt
 - Gwythiennau edau ar yr wyneb neu "wythiennau wedi torri" a mannau geni 'port wine'
 - Briwiau pigmentog
 - Acne.
- c) System Lynton Lumina i gleifion dros 18 oed:
- Gwaredu gwallt
 - Briwiau fasgwlaidd (gan gynnwys gwythiennau edau)
 - Adfywio'r croen
 - Briwiau pigmentog
 - Acne
 - Creithiau acne
 - Marciau ôl-beichiogi
 - Llinellau a rhychau dwfn
 - Ewinedd ffyngaid.
- d) System Lynton Lumina i gleifion dros 16 oed:
- Gwaredu gwallt
 - Gwythiennau edau ar yr wyneb neu "wythiennau wedi torri" a mannau geni 'port wine'
 - Briwiau pigmentog
 - Acne.
- e) Quanta Plus C Evo Nd: System Laser 'Yag and Ruby' i gleifion dros 18 oed ar gyfer y canlynol:

- Gwaredu tatŵau
- Gwaredu pigmentiad
- Adfywio'r croen
- Marciau ôl-beichiogi
- Creithiau acne
- Llinellau a rhychau dwfn.

f) Quanta Plus C Evo Nd: System Laser 'Yag and Ruby' i gleifion dros 16 oed ar gyfer y canlynol:

- Gwaredu pigmentiad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Laser Clinic North Wales yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol iawn, a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 40 o holiaduron. Cwblhawyd y mwyafrif o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn mynychu'r clinig ers llai na dwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd pob claf fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog. Ymhlith sylwadau'r cleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth yn y clinig roedd y canlynol:

"Mae'r staff yn bobl arbennig o ofalgar ac maent yn groesawgar ac yn gwneud i gleientiaid deimlo eu bod yn eu deall bob amser. Alla i ddim gweld bai ar y busnes hwn"

"Mae'r staff yn gynnes a gofalgar a bob amser yn broffesiynol. Rwy'n eu hargymell i'm ffrindiau a'm teulu. Rwy'n teimlo y gallaf ymddiried ynddynt a'u bod yn cadw fy nhriniaethau'n breifat"

"Bob amser yn brofiad dymunol, staff hyfryd, awyrgylch lle gallaf ymlacio'n hawdd. Pleser bob mis! Mae fy nghroen wedi gwella'n aruthrol!"

"Mae'r gwasanaeth yma yn broffesiynol iawn ac mae'r triniaethau heb eu hail. Mae pawb yn barod iawn eu cymorth, yn frwdfrydig ac yn groesawgar. Salon anhygoel a thriniaethau gwych, staff gwych"

"Gwasanaeth rhagorol, byddwn yn ei argymell i deulu a ffrindiau. Canlyniadau gwych. Proffesiynol iawn."

"Bob amser wedi cael gwasanaeth gwych a phroffesiynol."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod gweithredwyr y laser yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a holwyd a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Gwelsom fod modd cloi'r drws i'r ystafelloedd triniaeth a chadarnhaodd y staff eu bod yn gwneud hyn yn ystod triniaethau. Rhoddwyd tywelion i gleifion i ddiogelu'u hurddas os oedd angen, a rhoddwyd llonydd i gleifion ddadwisgo ar eu pen eu hunain os oedd angen.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb gael eu clywed.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig. Roedd pob claf o'r farn y gallai gynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster yn ystod ei apwyntiadau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Nodwyd gennym fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn derbyn unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Gwelsom hefyd enghreifftiau o daflenni gwybodaeth manwl i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf clytiau cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn gweld a oedd yn addas i gael y driniaeth, a'r tebygolrwydd o unrhyw adwaith negyddol. Cynhaliwyd cofrestr triniaethau ac roedd gwybodaeth am y triniaethau hefyd yn cael ei chofnodi yn ffeiliau cleifion unigol.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol

driniaethau, y costau a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedasant hefyd fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiadau a'u bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsyniad cyn cael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i gleifion fynd gyda nhw. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Gall un o weithredwyr y laser gyfathrebu â chleifion yn Gymraeg. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Mae gan y clinig wefan a'i thafleenni gwybodaeth ei hun, sy'n darparu gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael a'r ôl-ofal.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael apwyntiad ymgynghori cyn i'r driniaeth ddechrau, a oedd yn cynnwys asesiad o'r math o groen sydd ganddynt. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal da yn cael eu rhoi i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion am y risgiau a'r manteision.

Roedd fformatau'r dogfennau'n dda, ac yn cynnwys math o groen, cydsyniad i driniaeth a hanes meddygol.

Cadarnhaodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf clytiau cyn dechrau cael unrhyw driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr gwaelod gyda mynediad i bobl anabl i'r ardal aros, y dderbynfa, dwy ystafell ymgynghori a'r cyfleusterau toiled ac ymolchi. Mae digon o le i barcio ar y safle hefyd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedodd bron chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedd neb wedi ceisio eu barn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

Gwnaethom drafod dulliau i geisio adborth gan gleifion. Dywedodd y clinig wrthym eu bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfan marchnata ar-lein fel ffordd i'r cleifion roi adborth a/neu wneud sylwadau. Dywedodd y clinig wrthym hefyd fod cynlluniau yn yr arfaeth i gyflwyno holiaduron papur i gleifion eu cwblhau. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o unrhyw adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion bod y clinig yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir, a chytunodd y clinig i wneud hyn.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys yr offer priodol ac yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn. Gwnaethom argymhell bod y clinig yn datblygu ac yn cynnal amserlenni glanhau ar gyfer yr adeilad.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad wedi'u cynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd y labeli gwasanaethu ar y teclynau diffodd tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, roedd asesiadau risg tân ar waith ac roedd arwyddion amlwg i ddangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac roedd un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y gwasanaeth i'w weld yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith gyda'r rheolwr cofrestredig, gan gynnwys tasgau dyddiol ac wythnosol a'r trefniadau glanhau rhwng cleifion. Roeddem o'r farn bod y trefniadau a oedd ar waith yn briodol i ddiogelu cleifion rhag croes heintio. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y clinig yn cynnal amserlenni glanhau manwl fel tystiolaeth o'r trefniadau glanhau, a chytunodd y clinig i wneud hyn.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y gwasanaeth; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus iawn. Dywedodd dau glaf wrthym:

*"Hynod broffesiynol a bob amser yn rhoi'r cleient yn gyntaf.
Mae'r salon o safon uchel ac yn arbennig o lân."*

"Adeilad hyfryd a glân."

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth contract ar waith gyda chludydd gwastraff cymeradwy.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael eu datblygu a'u cynnal ar gyfer yr adeilad.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 16 oed. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddent yn delio ag unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â diogelu. Roedd polisïau ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn cynnwys gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen i'r staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Cawsom ein sicrhau ar lafar y byddai'r hyfforddiant yn cael ei gwblhau a chawsom gadarnhad yn syth ar ôl yr arolygiad fod hyn wedi digwydd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth fod y tair system laser /IPL wedi'u calibradu a'u gwasanaethu'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith a'u bod wedi cael eu llunio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract yn ei le gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a bod rheolau lleol ar gael³ a oedd yn manylu ar sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi'u llofnodi gan y ddau weithredwr laser. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn bryd i'r rheolau lleol gael eu hadnewyddu. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan y rheolwr cofrestredig fod y rheolau lleol wedi'u hadolygu ond nad oeddent eto wedi dod i law gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd na'r cyfarpar. Cysylltodd y rheolwr cofrestredig â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ystod ein harolygiad a chawsom gopïau o'r rheolau lleol wedi'u hadnewyddu yn syth ar ôl ein hymwelïad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr. Roedd y cyfarpar amddiffyn llygaid i'w weld mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Roedd arwydd y tu allan i bob ystafell driniaeth a oedd yn nodi pryd roedd y peiriannau laser yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell driniaethau yn cael ei gloi pan fo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad diawdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw dan glo bob amser.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd gan y clinig amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn ymwneud â phob agwedd ar ddiogelwch a gofal clinigol.

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau laser / IPL.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan y clinig systemau digonol ac addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Y rheswm dros hyn yw am fod y clinig, yn unol â'r rheoliadau, yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cofnodion er mwyn sicrhau cysondeb y wybodaeth ac yn asesu risgiau mewn cysylltiad ag iechyd a diogelwch.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw dan glo mewn cabinetau ffeiliau yn yr ystafelloedd triniaeth a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

⁴ Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae gan y clinig arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y ddau weithredwr laserau wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y clinig amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y clinig, a gwelsom eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y polisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu adolygu.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, a bod y staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cwynion ar waith a'i fod yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd manylion y weithdrefn cwynion hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gofnodi pryderon a chwynion ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu nodi yng nghofnodion cleifion unigol. Gwnaethom gynghori'r clinig i gadw cofnod canolog o unrhyw bryderon anffurfiol er mwyn nodi unrhyw themâu, a chytunodd y clinig i wneud hyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob defnyddiwr awdurdodedig a oedd yn gweithredu'r peiriant laser ac IPL wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser ac IPL.

Gwelsom hefyd fod y staff wedi cwblhau amrywiaeth o fodiwlau hyfforddi mewnol, allanol ac ar-lein, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael arfarniadau, a oedd yn cynnwys cynllun datblygiad proffesiynol manwl.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y tîm staff presennol yn sefydledig a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriant laser / IPL nes iddynt gael yr hyfforddiant priodol a nes bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. .

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: North Wales Laser Clinic

Dyddiad arolygu: 7 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dd/G				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael eu datblygu a'u cynnal ar gyfer yr adeilad.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae amserlen lanhau newydd wedi'i chreu sy'n galluogi'r ymarferwyr i lofnodi a chwblhau amserlen lanhau ddyddiol. Mae amserlen newydd hefyd a gaiff ei llofnodi a'i dyddio gan gwmni glanhau annibynnol ddwywaith yr wythnos.	Ruth Brockley	Gorfodwyd 20/2/19
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dd/G				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ruth Brockley

Swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 20/2/19